

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Llanwrtyd, Powys) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2018

The A483 Trunk Road (Llanwrtyd
Wells, Powys) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2018

Gwnaed 6 Mawrth 2018

Made 6 March 2018

Yn dod i rym 12 Mawrth 2018

Coming into force 12 March 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 Swansea to Manchester Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanwrtyd, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 12 Mawrth 2018.

1. The title of this Order is The A483 Trunk Road (Llanwrtyd Wells, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 12 March 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services and in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 12 Mawrth 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 07:00 hours

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd yn Llanwrtyd, Powys, sy'n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at yr annedd o'r enw fferm Henfron hyd at bwynt 250 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at yr annedd o'r enw Maes y Gwaelod.

Cymhwys

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

6 Mawrth 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

on 12 March 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road at Llanwrtyd Wells, Powys that extends from a point 150 metres south-west of the centre-point of its junction with the lane leading to the dwelling known as Henfron Farm to a point 250 metres south-west of the centre-point of its junction with the road leading to the dwelling known as Maes y Gwaelod.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

6 March 2018

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(LLANWRTYD, POWYS) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Llanwrtyd, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A483 sy'n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at yr annedd o'r enw fferm Henfron hyd at bwynt 250 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at yr annedd o'r enw Maes y Gwaelod.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A483 tua'r de-orllewin i Lanymddyfri, tua'r dwyrain ar yr A40 i Aberhonddu, tua'r gogledd ar yr A470 i Lanfair-ym-Muallt a thua'r gorllewin ar yr A483: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am 07:00 o'r gloch ar 12 Mawrth 2018 ac yn weithredol, yn ôl yr angen, hyd 16 Mawrth 2018, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (LLANWRTYD
WELLS, POWYS) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Llanwrtyd Wells, Powys.

The effect of the Order is to prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A483 that extends from a point 150 metres south-west of the centre-point of its junction with the lane leading to the dwelling known as Henfron Farm to a point 250 metres south-west of the centre-point of its junction with the road leading to the dwelling known as Maes y Gwaelod.

The alternative route for northbound vehicles is via the south-westbound A483 to Llandoverly, eastbound A40 to Brecon, northbound A470 to Builth Wells and westbound A483: vice versa for southbound vehicles.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will come into force at 07:00 hours on 12 March 2018 and operate, as required, until 16 March 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government